

## Canlyniadau'r arolwg o rinweddau arbennig

1. Roedd arolwg ar-lein o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ar agor am bum wythnos rhwng y 15<sup>fed</sup> o Fawrth a'r 19<sup>eg</sup> o Ebrill 2024. Hefyd rhoddwyd y dewis o ymateb drwy'r e-bost neu drwy'r post. Roedd yr arolwg yn wirfoddol ac yn ddiennw a chyhoeddwyd yr arolwg ar y cyfryngau cymdeithasol a'r papurau newydd. Derbyniwyd chwe deg pedwar o ymatebion i'r arolwg (cyfanswm o 9,500 a mwy o eiriau).
2. Nodir trosolwg isod o'r ymgynghoriad ar y rhinweddau arbennig. Yn gyffredinol, roedd y sylwadau yn amlygu ymdeimlad cryf o falchder cymunedol a phryder am ddyfodol y Parc Cenedlaethol, ac awydd am gamau gweithredu cadarn i warchod y dirwedd / morwedd, y bywyd gwylt a'r cyfanrwydd ecolegol, a'r dreftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Lleisiwyd pryderon arbennig ynghylch ansawdd dŵr ac aflonyddwch hamdden.
3. Mae canlyniadau'r arolwg wedi llywio adran 2 o'r Cynllun Partneriaeth drafft (*Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol*), adran 3 (*Cyflwr y Parc – yr heriau a'r cyfleoedd*) a'r polisiau a'r camau gweithredu arfaethedig (adrannau 4 i 7 o'r drafft). Mae amrywiol ddyfyniadau o'r arolwg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Partneriaeth drafft.

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau 1 a 2

C1. Meddyliwch am dri lle yn y Parc Cenedlaethol sy'n arbennig i chi. Beth am y lleoedd hyn sy'n eu gwneud yn arbennig?

C2. Allwch chi feddwl am unrhyw beth arall sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig?

**Harddwch naturiol:** tirweddau syfrdanol, traethau dilychwin, a golygfeydd ysblennydd, megis pentir Treginnis, Penmaen Dewi, Pwll Deri.

**Llonyddwch a dihangfa:** heddwch a thawelwch a'r gallu i ddianc o fywyd prysur modern / trefol.

**Hanes a threftadaeth gyfoethog:** mae cestyll megis Nanhyfer, henebion, a thirweddau a thirnodau cynhanesyddol megis Pentre Ifan, o bwys hanesyddol a diwylliannol arwyddocaol.

**Bywyd gwylt/ bioamrywiaeth:** bywyd gwylt a chynefinoedd amrywiol megis bywyd gwylt morol ar, ac o gwmpas ynsoedd Sgomer a Sgogwm. Gwerthfawrogiad o waith cadwraeth y partneriaid o ran harddwch naturiol a bywyd gwylt, gan gynnwys rhywogaethau prin neu rywogaethau sydd mewn perygl.

**Cysylltiad â natur:** yr ymdeimlad o gysylltiad dwfn â natur wrth archwilio tirweddau'r Parc.

**Yr iaith Gymraeg, treftadaeth ieithyddol a diwylliant:** yn rhan annatod o hunaniaeth y Parc; barddoniaeth - cyfoeth diwylliannol ac arwyddocâd hanesyddol.

**Lleoedd cymharol anghysbell a heb eu difetha:** megis Ceibwr, rhos Brynberian, Tŷ Canol - cyfleoedd i fod ar eich pen eich hun ac i archwilio.

**Nodweddion unigryw:** coetiroedd hynafol, ffurfiannau daearegol, golygfeydd arfordirol...

**Cysylltiadau personol:** arwyddocâd personol - lle o atgofion plentyndod, cysylltiadau teuluol, neu yn ffynhonnell ysbrydoliaeth.

**Lleoedd tawel:** cyfleoedd i fod ar eich pen eich hun ac i archwilio ymhell oddi wrth y tyrfaeodd twristiaid, gan ganiatáu i bobl fwynhau harddwch natur mewn heddwch.

**Ymdeimlad o gymuned:** ymhlith y trigolion, busnesau ac ymwelwyr.

**Tirweddau amrywiol a phatrwm gwledig:** tir amaeth, afonydd, coedwigoedd, brynau a rhostir, dyfroedd arfordirol.

**Cyfleoedd hamdden:** ystod eang o gyfleoedd ar gyfer gweithgareddau awyr agored megis cerdded, nofio, gwyllo adar a syrffio.

**Hygrychedd a diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol:** ymdrechion i wella hygrychedd a gwarchod harddwch naturiol fel y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau a gwerthfawrogi rhyfeddodau'r Parc.

**Polisi datblygu:** rôl polisiâu ar wahân, sensitif ar gyfer y Parc, a rheoli datblygu o ran gwarchod a gwella harddwch y golygfeydd ac ansawdd yr amgylchedd.

**Statws fel unig Barc Cenedlaethol arfordirol y DU:** Mae'r gwahaniaeth o fod yr unig barc cenedlaethol gwirioneddol arfordirol yn y DU yn gwneud Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn arbennig ynddo'i hun.

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 3

C3 Beth yw'r prif heriau sy'n wynebu'r rhinweddau arbennig a restrwyd gennych uchod?

**Datblygiad amhriodol:** effeithiau gweithgaredd dynol ar gymeriad y dirwedd / morwedd, gan gynnwys datblygiad mewn dyfroedd arfordirol.

**Gorlenwi a hygrychedd:** yr her a ddaw yn sgîl niferoedd uchel o ymwelwyr, yn enwedig yn ystod y tymor brig, gan arwain at orlenwi, tagfeydd ac anhawster i gael mynediad i ardaloedd penodol, yn enwedig ar gyfer unigolion â phroblemau symudedd.

**Sbwriel a llygredd:** sbwriel, llygredd carthion, dŵr ffo amaethyddol, a llygredd plastig.

**Newid hinsawdd:** cynnydd yn lefel y môr, erydiad arfordirol, colli cynefinoedd, a newidiadau mewn ymddygiad a dosbarthiad bywyd gwyllt.

**Ffermio a datblygu dwys:** rhai arferion ffermio, llygredd amaethyddol, a datblygiad amhriodol gydag effeithiau ar fioamrywiaeth, ansawdd dŵr a harddwch y golygfeydd.

**Pwysau twristiaeth:** yn enwedig o ran arfordira yn agos at fywyd gwyllt.

**Rheoli'r seilwaith a'r adnoddau:** cynnal a chadw'r seilwaith, cyllid ar gyfer ymdrechion cadwraeth, a rheoli cyfleusterau cyhoeddus.

**Ymgysylltu â'r gymuned ac addysg:** sgôp i gynyddu ymwybyddiaeth o fewn a thu hwnt i ffin y Parc.

### Crynodeb o'r ymatebion i gwestiwn 4

C4 Pa gamau sydd angen eu cymryd i warchod neu adfer y pethau sy'n gwneud y Parc Cenedlaethol yn arbennig?

**Mesurau rheoleiddio:** cyfyngu ar ddyframaethu mewn ardaloedd arfordirol sensitif. Rheoleiddio twristiaeth antur yn fwy llym.

**Ymgysylltu â'r gymuned:** cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â'r Parc Cenedlaethol, gan gynnig llwybrau gyrfa a rhaglenni addysgol. Meithrin cyfranogiad y gymuned mewn ymdrechion cadwraeth drwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a chyfranogiad.

**Addysg amgylcheddol:** addysgu pobl a darparwyr am ymddygiad cyfrifol, megis gwaredu gwastraff a pharchu cynefinoedd bywyd gwyllt. Hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol mewn ysgolion a busnesau drwy fentrau codi sbwriel a rhaglenni addysgol.

**Gwella'r seilwaith:** gwella mynediad i draethau, gosod mwy o finiau, a darparu cyfleusterau digonol megis toiledau a pharcio. Gwella'r opsiynau trafndiaeth gyhoeddus a hyrwyddo dulliau eraill o deithio megis beicio a cherdded.

**Adfer cynefinoedd:** Adfer a gwarchod cynefinoedd naturiol megis twyni, glaswelltiroedd a gwrychoedd drwy brosiectau ar raddfa tirwedd a mentrau rheoli cynefinoedd. Gweithredu ymdrechion ail-wylltio a chynyddu gorchudd coetir i wella bioamrywiaeth.

**Polisi a chynllunio:** Integreiddio amcanion cadwraeth natur mewn polisïau cynllunio a phrosesau gwneud penderfyniadau. Cryfhau'r mesurau rheoleiddio i reoli datblygiadau amhriodol a gorfodi rheolau cynllunio i warchod ardaloedd sensitif.

**Gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd:** Ymrwmo i gyflawni allyriadau carbon sero net a lleihau ôl troed carbon y Parc. Gweithredu mesurau i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis plannu coed, diogelu pridd, a strategaethau ymaddasu.

**Ymdrech ar y cyd:** meithrin cydweithredu rhwng rhanddeiliaid, gan gynnwys cymunedau lleol, tirfeddianwyr a busnesau. Cymryd rhan mewn partneriaethau i fynd i'r afael â heriau cyffredin a gweithio tuag at nodau cadwraeth a rennir. Buddsoddi mewn arferion twristiaeth gynaliadwy, prosiectau adfer cynefinoedd, addysg amgylcheddol, a mesurau ymaddasu i'r newid hinsawdd.

**Gorfodi a monitro:** Cryfhau gorfodi'r rheoliadau sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, llygredd, a gweithgareddau hamdden. Monitro iechyd yr ecosystemau a phoblogaethau'r rhywogaethau i olrhain cynnydd a chlustnodi'r bygythiadau sy'n dod i'r amlwg.

**Dathlu diwylliant:** Hyrwyddo a gwarchod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn y Parc. Cefnogi mentrau sy'n dathlu traddodiadau lleol a hyrwyddo arferion twristiaeth gynaliadwy sy'n parchu gwerthoedd diwylliannol.

**Ymwybyddiaeth ac eiriolaeth y cyhoedd:** Codi'r ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cadwraeth natur a'r angen i warchod rhinweddau arbennig y Parc. Eiriol dros reoliadau cryfach o warchod a gorfodi, mwy o gyllid, a newidiadau polisi ar lefelau lleol a chenedlaethol.

C5: Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio chi orau?

Rwy'n byw ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.	52
Rwy'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro (teithiau dydd).	2
Rwy'n ymweld â Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro (aros dros nos).	5
Arall.	5

### Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiwn terfynol

"Diolch i chi am ateb i'r arolwg. Bydd eich ymatebion yn helpu i lywio'r gwaith o reoli'r Parc Cenedlaethol. Os oes gennych unrhyw sylwadau eraill, a fydddech gystal â'u nodi isod."

(Sylwer – mae nifer o'r pwyntiau canlynol hefyd wedi'u codi mewn ymatebion pobl eraill i gwestiynau blaenorol).

**laith a diwylliant:** pwysigrwydd hyrwyddo a gwarchod yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth o fewn y Parc. Yr angen am gyfathrebu dwyieithog a chydabod hunaniaeth ieithyddol unigryw yr ardal.

**Hygyrchedd:** gwneud y Parc yn fwy hygyrch, yn enwedig i bobl sydd ag anableddau. Ymhlith yr awgrymiadau oedd gwella'r cyfleusterau, yr arwyddion a'r seilwaith i ddarparu ar gyfer ystod amrywiol o ymwelwyr.

**Cadwraeth amgylcheddol:** pryderon am lygredd, diraddio cynefinoedd a gorddatblygu o fewn y Parc. Yn galw am fwy o reoleiddio, gorfodi, ac addysg i fynd i'r afael â'r materion hyn a gwarchod bioamrywiaeth.

**Ymgysylltu â'r gymuned:** cynnwys y cymunedau lleol yn fwy gweithredol mewn ymdrechion cadwraeth, gan gynnwys rhaglenni gwirfoddoli a chydweithio â sefydliadau cymunedol. Ymgysylltu â phobl ifanc a hyrwyddo gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur.

**Twristiaeth gynaliadwy:** pryder am y cydbwysedd rhwng cadwraeth natur a thwristiaeth. Roedd llawer o'r ymatebion yn dadlau o blaid symud tuag at dwristiaeth natur ac i ffwrdd o dwristiaeth antur, yn enwedig mewn ardaloedd bywyd gwyllt sensitif ac ar adegau pwysig o ran adar y môr a morloi magu.

**Cyfathrebu a thryloywder:** pwysigrwydd gwneud penderfyniadau yn dryloyw, cyfathrebu yn effeithiol, a chynnwys y gymuned yn y mesurau o reoli'r Parc. Ymhlith yr awgrymiadau oedd cyhoeddi diweddariadau rheolaidd, cynlluniau rheoli hygyrch, a fforymau cyhoeddus ar gyfer cael trafodaeth.

**Cydweithio a phartneriaethau:** yn galw am gydweithio agosach rhwng yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, cynghorau cymuned/tref/dinas, asiantaethau cadwraeth a rhanddeiliaid eraill i fynd i'r afael â'r heriau cyffredin a chael nodau cadwraeth a rennir.

**Ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd:** yr angen i fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis lefelau'r môr yn codi a llifogydd, drwy fesurau ymaddasu a chynlluniau wrth gefn.